Bundle Y Pwyllgor Addysg, Comisiynu Ac Ansawdd (Agored) 8 October 2020

AGENDA

ECQC Agenda 8 October 2020 (Open) V4 CYM.docx

1 RHAN 1 - MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.3 Datganiadau o Fuddiant

1.4 Derbyn a Chadarnhau Cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020

1.4 - Unconfirmed ECQC Minutes_2020-09-16 (Open) V3 CYM.docx

1.5 Cofnod Gweithredu

1.5 - ECQC Action Log _2020-09-16 (Open) V2 CYM.docx

1.6 Materion yn codi

2 RHAN 2 - PERFFORMIAD AC ANSAWDD ADDYSG

2.1 Diweddariad ar Reoli Ansawdd

2.1 - Quality Management Update Sept 2020 CYM.docx

2.2 Crynodeb o Adolygiad Comisiynu Darparwyr Addysg Lleol 2019-2020

2.2 - Summary LEP Commissioning Review 2019-2020_Sept 2020 CYM.docx

3 RHAN 3 - MATERION LLYWODRAETHU

3.1 Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor

3.1a - Evaluation_ECQC Self Assessment Cover Report_October 2020 (V2(F) CYM.docx

3.1b - Appendix 1 - ECQC EFFECTIVENESS REVIEW 2019-2020 FINAL_COMPLETED V2(F).docx

3.2 Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor

3.2a - Review of ECQC Committee Terms of Reference_October 2020 V2(F) CYM.docx

3.2b - Appendix 1 - ECQC Terms of Reference_October 2020 V2(F).docx

3.3 Derbyn y Cofnodion Drafft Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Grp Addysg ac Ansawdd Amlbroffesiynol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020

3.3 - Draft Unconfirmed Minutes for Internal MPEQG Meeting 23.09.20-en-cy-C (1) CYM.docx

3.4 Cylch Gorchwyl y Grwpiau Cynghori Mewnol ac Allanol newydd ar Addysg a Hyfforddiant

3.4a - Cover paper TofR sub groups DB 04.10.20 (1)-en-cy-C (1) cym.docx

3.4b - Appendix 1.1 TofR Education Groups 04.10.20 DB (1)(clean).docx

3.4c - Appendix 1.2 TofR Education Groups 04.10.20 DB (1)(tracked).docx

3.5 Blaenraglen Waith Ddraft 2021

3.5 - DRAFT ECQC Future Work Programme 2021 v1 October 2020-en-cy-C (1) cym.docx

4 RHAN 4 - MATERION STRATEGOL

4.1 Papur Briffio - Ymgorffori'r Gwersi Cadarnhaol o COVID-19: Diffinio'r 'Normal Newydd' ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

4.1 - ECQC Briefing Paper New Normal Oct 2020 CYM.docx

4.2 Diweddariad ar yr Adolygiad Strategol o Addysg Gofal Iechyd yng Nghymru

4.3 Asesiad o Anghenion Hyfforddiant Rhwydwaith Trawma De Cymru

5 CAU

5.1 Unrhyw Fater Arall

5.2 Myfyrio ar y Pwyllgor Heddiw

5.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021 am 10:00am naill ai trwy Microsoft Teams neu yn Ystafell Gyfarfod 1 AaGIC, T Dysgu

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Y PWYLLGOR ADDYSG, COMISIYNU AC ANSAWDD (Agored)

Dydd Iau, 8 Hydref 2020
10:30 – 13:15

Trwy Microsoft Teams/Telegynhadledd

AGENDA

RHAN 1	**MATERION RHAGARWEINIOL**	**10:30-10:40**
1.1	Croeso a Chyflwyniadau	Cadeirydd/ Llafar
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Cadeirydd/ Llafar
1.3	Datganiadau o Fuddiant	Cadeirydd/ Llafar
1.4	Derbyn a Chadarnhau Cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020	Cadeirydd/ Atodiad
1.5	Cofnod Gweithredu	Cadeirydd/ Atodiad
1.6	Materion yn Codi	Cadeirydd/ Llafar
RHAN 2	**PERFFORMIAD AC ANSAWDD ADDYSG**	**10:40-11:00**
2.1	Diweddariad ar Reoli Ansawdd	Cyfarwyddwr Meddygol/ Atodiad
2.2	Crynodeb o Adolygiad Comisiynu Darparwyr Addysg Lleol 2019-2020	Cyfarwyddwr Meddygol/ Atodiad
RHAN 3	**MATERION LLYWODRAETHU**	**11:00-12:00**
3.1	Gwerthusiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
3.2	Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
3.3	Derbyn y Cofnodion Drafft Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod y Grŵp Addysg ac Ansawdd Amlbroffesiynol a gynhaliwyd ar 23 Medi 2020	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro/ Atodiad
3.4	Cylch Gorchwyl y Grwpiau Cynghori Mewnol ac Allanol newydd ar Addysg a Hyfforddiant	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
3.5	Blaenraglen Waith Ddraft 2021	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
RHAN 4	**MATERION STRATEGOL**	**12:00-13:00**
4.1	Papur Briffio - Ymgorffori'r Gwersi Cadarnhaol o COVID-19: Diffinio'r 'Normal Newydd' ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru	Cyfarwyddwr Meddygol/ Atodiad
4.2	Diweddariad ar yr Adolygiad Strategol o Addysg Gofal Iechyd yng Nghymru	Cyfarwyddwr Cyllid/ Llafar

4.3	Asesiad o Anghenion Hyfforddiant Rhwydwaith Trawma De Cymru	Dr Dindi Gill Dr Bethan Nicholas Sue West-Jones Rachel Taylor/ Llafar
RHAN 5	**CAU**	**13:00-13:15**
5.1	Unrhyw Fater Arall	Cadeirydd/ Llafar
5.2	Myfyrio ar y Pwyllgor Heddiw	Cadeirydd/ Llafar
5.3	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: **Dydd Mawrth, 9 Chwefror 2021 am 10:00am naill ai trwy Microsoft Teams neu yn Ystafell Gyfarfod 1 AaGIC, Tŷ Dysgu**	Cadeirydd/ Llafar

Yn unol â darpariaeth Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyniadau i Gyfarfodydd) 1960, penderfynir bod cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn cael eu heithrio o ran olaf y cyfarfod ar y sail y byddai'n niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes sy'n cael ei drafod. Mae'r rhan hon o'r cyfarfod i'w chynnal mewn sesiwn breifat.

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

HEB EU CADARNHAU

Cofnodion DRAFFT y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd
a gynhaliwyd ar 16 Medi 2020
Trwy Microsoft Teams/Telegynhadledd

Yn bresennol:

Dr Ruth Hall	Cadeirydd ac Aelod Annibynnol
Tina Donnelly	Aelod Annibynnol

Yn mynychu:

Dafydd Bebb	Ysgrifennydd y Bwrdd
Angela Parry	Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro
Martin Riley	Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, Comisiynu ac Ansawdd
Eifion Williams	Cyfarwyddwr Cyllid
Dr Tom Lawson	Deon Meddygol Ôl-raddedig
Kay Barrow	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

RHAN 1	MATERION RHAGARWEINIOL	Cam Gweithredu
PACA: 16/09/1.1	**CROESO A CHYFLWYNIADAU**	
	Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.	
PACA: 16/09/1.2	**Ymddiheuriadau am absenoldeb**	
	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Pushpinder Mangat (Cyfarwyddwr Meddygol)	
PACA: 16/09/1.3	**Datganiadau o Fuddiant**	
	Nodwyd y datganiadau canlynol o fuddiant mewn perthynas ag eitem 2.1 ar yr agenda: Eifion Williams – Aelod o Bwyllgor Cyllid Prifysgol Abertawe a myfyriwr ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Angela Parry – Yn meddu ar Gontract Er Anrhydedd gyda Phrifysgol Caerdydd; Tina Donnelly – Cymrawd o Brifysgol De Cymru.	
PACA: 16/09/1.4	**Derbyn a Chadarnhau Cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020**	
	Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020 yn gofnod cywir, yn amodol ar y gwelliannau canlynol: • **PACA 02/07/2.3 Cynllun Addysg a Hyfforddiant Blynyddol Drafft:** Dileu'r gair 'hefyd' o frawddeg olaf y trydydd paragraff ar frig tudalen 6, fel bod dechrau'r frawddeg yn darllen 'Roedd hyn hefyd wedi llywio'r ymagwedd at ….'. • **PACA 02/07/4.1 Fersiwn Drafft Rhestr Wirio Hunanasesu'r**	

	Pwyllgor: Dileu'r geiriau 'Er bod' o ddechrau brawddeg olaf y paragraff olaf ar dudalen 7 a defnyddio llythyren fawr ar gyfer y llythyren 'm' yn y gair 'mynegwyd' cyn y gair 'rhai', fel bod y frawddeg yn darllen 'Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â hyd a nifer y cwestiynau'.	
PACA: 16/09/1.5	**Cofnod Gweithredu**	
	Derbyniodd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a nododd fod nifer o gamau gweithredu a ohiriwyd oherwydd effaith y Pandemig COVID 19 naill ai wedi'u trefnu i'w hystyried yng nghyfarfod mis Hydref neu wedi'u cynnwys yn y Flaenraglen Waith i'w hystyried ddechrau 2021. Cadarnhawyd y byddai'r eitemau hyn yn cael eu cadw ar y Log Gweithredu nes eu bod wedi'u cwblhau. **Ystyriodd** y Pwyllgor y Log Gweithredu a derbyniwyd y diweddariadau llafar canlynol: • **PACA 21/10/2.2 Adolygiad KPMG o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol:** Nododd y Pwyllgor fod y sefyllfa mewn perthynas â'r Geiriadur Clinigol Cymraeg a rheoli adnoddau Cymraeg yn cael ei hadolygu ac y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu yn y Pwyllgor ym mis Hydref.	
Penderfynwyd	**Cytunodd** y Pwyllgor i gael y wybodaeth ddiweddaraf yn ei gyfarfod ym mis Hydref am reoli adnoddau Cymraeg a'r Geiriadur Clinigol Cymraeg.	**AP/DB**
	• **PACA 21/10/2.2** Adolygiad KPMG o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol: Roedd adroddiad at wraidd y mater ar yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol i fod i gael ei gynnwys ym Mlaenraglen Waith Datblygu'r Bwrdd ar gyfer mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID 19, gohiriwyd yr eitem hon. Cadarnhawyd bod manyleb y contract a'r Gwahoddiad i Dendro wedi'u datblygu a'i bod yn eitem ar wahân ar agenda'r Pwyllgor heddiw. Dywedodd Angela Parry fod adroddiad at wraidd y mater wedi'i gwblhau mewn perthynas â sawl apêl yn ymwneud â bwrsariaeth ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHP) ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Pwyllgor: • **gytuno** y dylid dileu'r camau gweithredu yn ymwneud â'r adroddiad at wraidd y mater ar yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol mewn Sesiwn Datblygu Bwrdd o dan gam gweithredu PACA 21/10/2.2 o'r cofnod gweithredu. • **cytuno** i dderbyn adroddiad at wraidd y mater ar Apeliadau Bwrsariaeth AHP.	**DB** **AP**
PACA: 16/09/1.6	**Materion yn Codi**	
	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	
RHAN 2	**MATERION STRATEGOL**	
PACA: 16/09/2.1	**Manyleb Contract Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**	
	Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad.	

Wrth gyflwyno'r adroddiad, darparodd Eifion Williams a Martin Riley drosolwg o'r adolygiad o'r contractau addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol a datblygu'r Strategaeth derfynol ar gyfer Addysg. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar ddull gweithredu dau gam, gyda'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar raglenni ôl-raddedig cyn cofrestru, a'r ail gam yn canolbwyntio ar addysg ar ôl cofrestru, fel rhaglenni addysg uwch ac estynedig.

Roedd y broses o adolygu'r contractau a datblygu'r Strategaeth wedi'i goruchwylio gan Fwrdd y Rhaglen. Fel Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen, gofynnodd Eifion Williams i'r Pwyllgor nodi ymrwymiad rhagorol aelodau Bwrdd y Rhaglen wrth ymgymryd â'r gwaith ar gyfer Cam 1, yn ogystal â'r cyfraniad a wnaed gan Dimau Caffael a Chyfreithiol y Cydwasanaethau. Gofynnodd i'r Pwyllgor gydnabod cyfraniad Stephen Griffiths, Cyfarwyddwr Nyrsio, cyn iddo ymddeol ddiwedd mis Mai 2020, yn ogystal â chefnogaeth Martin Riley.

Cafwyd cydnabyddiaeth o waith helaeth Bwrdd y Rhaglen, cyfraniad Stephen Griffiths a'r gefnogaeth gan Martin Riley gan y Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor yn fanwl y cynigion caffael terfynol mewn perthynas â'r Contractau Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, a gwnaeth nifer o argymhellion i egluro a chryfhau'r dogfennau.

Nodwyd bod yr Adolygiad Strategol o Gam 1 Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol yn ceisio sicrhau addysg gweithwyr iechyd proffesiynol cyn cofrestru i Gymru am y 7 i 10 mlynedd nesaf. Mae'r rhaglen waith wedi bod yn gyfle i gynnal adolygiad system gyfan o ffurf a ffocws y ddarpariaeth addysg a hyfforddiant bresennol; ystyried y manylebau a'r rhaglenni addysg sydd eu hangen i gynorthwyo'r GIG yng Nghymru i symud ymlaen; ac ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i COVID 19, gyda'r defnydd cynyddol o dechnoleg rithwir yn hytrach nag addysgu wyneb yn wyneb.

Roedd y Rhaglen Adolygu yn cynnwys gwaith a gwblhawyd gan KPMG a oedd yn cynnwys ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid ac yn ymchwilio i arferion gorau ar lefel ryngwladol. Mae'r egwyddorion allweddol sy'n deillio o'r adolygiad yn cyd-fynd â 'Cymru Iachach'; Strategaeth y Gweithlu newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Nodau ac Amcanion Strategol AaGIC. Mae'r elfennau allweddol hyn wedi'u cynnwys yn y contractau newydd er mwyn sicrhau arloesedd a darparu addysg o ansawdd uchel. Hefyd, mae'r contractau yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mynegwyd pryderon yn ymwneud â'r angen i adlewyrchu'r pwyslais ar ddysgu rhyngbroffesiynol a dysgu cyfunol yn fwy penodol yn yr adroddiad eglurhaol.

Roedd yr Adolygiad yn cefnogi'r dull o ymdrin â'r Strategaeth Lotiau, sy'n ehangu mynediad at addysg a hyfforddiant er mwyn darparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr o bob rhan o Gymru, gan gefnu ar ddarpariaeth gan un cyflenwr, lle bo hynny'n ymarferol. Mynegwyd rhai pryderon am y capasiti a'r adnoddau mewn prifysgolion i fodloni'r gofynion cyflawni. Sicrhawyd y Pwyllgor bod y mater hwn wedi'i archwilio'n foddhaol a bod y Strategaeth yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Rhaglen Adolygu

	Strategol. Cododd y Pwyllgor gwestiynau mewn perthynas â'r model prisio a goblygiadau ariannol ffi sefydlog fesul myfyriwr, gan nodi y byddai symiau ychwanegol yn cael eu talu i ddarparwyr addysg sy'n bodloni meini prawf penodol i ehangu mynediad a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol. Roedd y dull ariannol yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru sy'n dod i'r amlwg "Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol". Cyn cytuno ar y model ariannol, ymgynghorwyd â'r darparwyr addysg ar y dull o bennu ffi sefydlog. Roedd angen gwneud y dadansoddiad o amcanestyniadau a chost a budd yn fwy eglur yn yr adroddiad eglurhaol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r gyfradd gadael a sut y mynegwyd hynny yn y dogfennau. Roedd angen nodi'r broses fonitro a herio yn fwy eglur. Hefyd, mae angen i'r adroddiad eglurhaol fod yn fwy eglur ynglŷn â threfniadau llywodraethu ym manyleb y contract, sy'n manylu ar y gofyniad am dri chyfarfod busnes bob blwyddyn i adolygu cyllid, perfformiad ac ansawdd pob darparwr. Cwestiynodd y Pwyllgor aelodaeth y Panel Gwerthuso a'r potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau. Er bod prosesau ar waith ar gyfer penodi aelodau priodol o'r Panel o safbwynt datgan buddiannau a gwrthdaro posibl, roedd angen nodi hyn yn glir yn yr adroddiad eglurhaol. Teimlai'r Pwyllgor, oherwydd amrywiad mewn safonau ledled y DU, y byddai'r Panel yn elwa o gael cynrychiolaeth academaidd o bob un o'r pedair gwlad. Cwestiynodd y Pwyllgor bwysoliad yr asesiad sgorio ar gyfer yr elfen ddigidol yn y gwerthusiad. Roedd angen i'r gofyniad i'r Bwrdd gael ei gynnwys yn y trefniadau llywodraethu fod yn fwy eglur yn yr adroddiad eglurhaol.	
Penderfynwyd	Yn amodol ar ddiwygio'r dogfennau i adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor, **cytunodd** y Pwyllgor i: • **gymeradwyo'r** cynllun a'r strategaeth gaffael, i'w hystyried gan y Bwrdd; • **argymell** cyflwyno'r Gwahoddiad i Dendro a Manyleb y Contract i'r Bwrdd; • **argymell** i'r Bwrdd y dylid cyflwyno'r Adroddiad Caffael i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael NWSSP a Llywodraeth Cymru.	**EW/AP**
PACA: 16/09/2.2	**Cryfhau Darpariaeth Gymraeg**	
	Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Dafydd Bebb fod AaGIC, drwy'r gwaith sydd wedi'i wneud i adolygu'r contractau, wedi gallu ymgorffori nifer o fesurau i gryfhau sgiliau Cymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer pob myfyriwr o fewn manyleb y contract. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y mesurau a gymerwyd i gryfhau'r	

	Ddarpariaeth Gymraeg o fewn Manyleb y Contract Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol gyda'r nod o greu amgylchedd a fydd yn helpu darparwyr i gyflwyno addysg Gymraeg ac yn gwella sgiliau iaith Gymraeg gweithlu'r GIG yn y dyfodol.	
Penderfynwyd	Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.	
RHAN 3	**PERFFORMIAD AC ANSAWDD ADDYSG**	
PACA: 16/09/3.1	**Cylch Gorchwyl yr Is-grwpiau Addysg**	
	Derbyniodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl diwygiedig yr Is-grŵp Addysg. Wrth gyflwyno'r Cylch Gorchwyl, dywedodd Dafydd Bebb fod trafodaeth gan y Tîm Gweithredol wedi awgrymu y dylai'r ddau grŵp gael eu disgrifio fel Grwpiau Cynghori ac y byddai eu teitlau'n newid i adlewyrchu natur y Grwpiau. Teitl y grŵp mewnol fydd y Grŵp Addysg ac Ansawdd Aml-Broffesiynol (MPEQG) a theitl y grŵp allanol fydd y Grŵp Cynghori ar Addysg (EAG). Hefyd, roedd y Tîm Gweithredol wedi awgrymu y dylai rôl y grŵp mewnol ganolbwyntio mwy ar ansawdd, ac y dylai ei gylch gwaith gynnwys datblygu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, gofyniad newydd ar gyfer AaGIC yn 2020/21. Bydd y grŵp allanol yn canolbwyntio ar ddarparu cyngor a chymorth i'r Pwyllgor. Ystyriodd y Pwyllgor y diwygiadau a nifer aelodau'r ddau grŵp, a nifer aelodau'r grŵp mewnol yn benodol. Nodwyd y ffaith nad yw meddygon staff ac arbenigwyr cyswllt (SAS) yn cael eu cynrychioli, ond nodwyd y gallai'r sefyllfa hon newid cyn bo hir pan ddaw meddygon SAS o fewn cylch gwaith y Ddeoniaeth Feddygol. Cadarnhawyd bod Cyngor y Deon yn fodlon i'w Cadeirydd gynrychioli'r prifysgolion fel aelod o'r grŵp allanol, gyda'r posibilrwydd i'r Is-gadeirydd fod yn ddirprwy gynrychiolydd. Gofynnwyd a ddylai'r broses o enwebu dirprwyon fod yn glir o fewn y Cylch Gorchwyl. Eglurwyd mai'r arfer cyffredin oedd i ddirprwy fynychu yn lle aelod. Fodd bynnag, pwysleisiwyd bod angen i'r dirprwy fod ag awdurdod i wneud penderfyniadau.	
Penderfynwyd	Yn amodol ar ddiwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor, **cytunodd** y Pwyllgor y dylai pob un o'r Grwpiau Cynghori newydd adolygu eu Cylch Gorchwyl yn eu cyfarfodydd agoriadol.	**DB**
RHAN 4	**CAU**	
PACA: 16/09/4.1	**Unrhyw Fater Arall**	
	Nid oedd unrhyw fater arall.	
Penderfynwyd		
PACA: 16/09/4.2	**Myfyrio ar y Pwyllgor Heddiw**	
	Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n darparu trosolwg o drafodaeth y Pwyllgor ar gyfer y Bwrdd fel rhan o Adroddiad Materion Allweddol Cadeirydd ei Phwyllgor.	
PACA: 16/09/4.3	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	

	Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf, sef dydd Iau 8 Hydref 2020 am 10.00am yn yr Ystafell Gynadledda, Tŷ Dysgu, Nantgarw.	

....

Dr Ruth Hall (Cadeirydd) **Dyddiad:**

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (Agored)
16 Medi 2020
Cofnod Gweithredu

(Hefyd, mae'r Daflen Weithredu yn cynnwys camau y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd sydd eto i'w cwblhau neu sydd am gael eu hystyried gan y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u lliwio yn yr adran gyntaf. Pan fydd y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd wedi cymeradwyo'r camau hyn, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y daflen weithredu dreigl.)

Cyfeirnod y Cofnod	Cam Gweithredu a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Cwblhawyd
PACA: 16/01/3.1	**Adroddiad Perfformiad Contractau Addysg**			
	Archwilio'r potensial ar gyfer digwyddiad dathlu naill ai'n flynyddol neu bob 6 mis gyda darparwyr gwasanaethau.	**Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**	I'w gadarnhau	Gohiriwyd. Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried ar ôl i'r argyfwng presennol ddod i ben.
PACA: 16/01/3.3	**Trefniadau Newydd y Broses Gomisiynu Flynyddol ar gyfer Addysg Ôl-raddedig**			
	Adroddiad Cryno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2020.	**Cyfarwyddwr Meddygol**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 02/07/1.5	**Cofnod Gweithredu**			
	PACA 21/10/2.2 Adolygiad KPMG o Addysg Gweithwyr lechyd Proffesiynol:			
	• Archwilio ymhellach i argaeledd Adnoddau Cymraeg gan gynnwys y Geiriadur Clinigol Cymraeg ac ystyried sut y byddai'r adnoddau hyn yn cael eu rheoli, eu diweddaru a'u rhannu â sefydliadau eraill er mwyn cefnogi darpariaeth Gymraeg.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Hydref 2020	Diweddariad llafar i'w ddarparu yn y Pwyllgor ym mis Hydref.

Cyfeirnod y Cofnod	Cam Gweithredu a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Cwblhawyd
	PACA: 16/01/2.4 Rhwydwaith Trawma Mawr: Anghenion Hyfforddi			
	• Rhagwelwyd y byddai'r Rhwydwaith Trawma Mawr yn cael ei ail-lansio yn yr Hydref.	**Cyfarwyddwr Meddygol**	Hydref 2020	Mae'r Arweinwyr Clinigol a Hyfforddiant yn mynychu'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 02/07/2.1	**Diweddariad ar COVID 19**			
	• Bydd y cyflwyniad ar y 'normal newydd' yn cael ei droi'n bapur briffio, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi at ddibenion gweithredu a monitro.	**Cyfarwyddwr Meddygol**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 02/07/3.2	**Adolygiad Sicrwydd Ansawdd o Addysg Feddygol Ôl-raddedig (PGME) yn ystod Pandemig COVID 19**			
	• Cyflwynir papur arall ar sicrhau ansawdd addysg ar gyfer meysydd aml-broffesiynol eraill yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Hydref 2020.	**Cyfarwyddwr Meddygol/ Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 02/07/4.1	**Rhestr Wirio Hunanasesu Ddrafft y Pwyllgor**			
	• Bydd gwerthusiad o'r Rhestr Wirio Hunanasesu yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Hydref 2020.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref
PACA: 02/07/6.1.1	**Anghydraddoldeb ym meysydd Cyrhaeddiad Addysgol a Recriwtio**			
	• Cyflwyno papur trafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i ystyried sut y gall AaGIC fynd ati i liniaru effaith anghydraddoldeb yng nghyd-destun cyrhaeddiad addysgol a recriwtio.	**Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**	Dechrau 2021	Mae Grŵp Cyrhaeddiad Gwahaniaethol newydd wedi'i sefydlu i ddatblygu'r gwaith hwn. Ychwanegwyd yr eitem at y Flaenraglen Waith ar gyfer dechrau 2021.

Cyfeirnod y Cofnod	Cam Gweithredu a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Cwblhawyd
PACA: 02/07/6.1.2	**Blaenraglen Waith**			
	• Cyflwyno Blaenraglen Waith wedi'i diweddaru i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 16/09/1.4	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2020**			
	• **PACA 02/07/2.3 Cynllun Addysg a Hyfforddiant Blynyddol Drafft:** Dileu'r gair 'hefyd' o frawddeg olaf y trydydd paragraff ar frig tudalen 6, fel bod dechrau'r frawddeg yn darllen **'**Roedd hyn hefyd wedi llywio'r ymagwedd at ….'.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	O fewn 1 wythnos	Cwblhawyd
	• **PACA 02/07/4.1 Fersiwn Drafft Rhestr Wirio Hunanasesu'r Pwyllgor:** Dileu'r geiriau 'Er bod' o ddechrau brawddeg olaf y paragraff olaf ar dudalen 7 a defnyddio llythyren fawr ar gyfer y llythyren 'm' yn y gair 'mynegwyd' cyn y gair 'rhai', fel bod y frawddeg yn darllen 'Mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â hyd a nifer y cwestiynau'.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	O fewn 1 wythnos	Cwblhawyd
PACA: 16/09/1.5	**Cofnod Gweithredu**			
	• **PACA 21/10/2.2 Adolygiad KPMG o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol:** Dileu'r cam gweithredu yn ymwneud â'r adroddiad at wraidd y mater ar yr Adolygiad Strategol o Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol mewn Sesiwn Datblygu Bwrdd o dan gam gweithredu PACA 21/10/2.2 o'r cofnod gweithredu.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	O fewn 1 wythnos	Cwblhawyd

Cyfeirnod y Cofnod	Cam Gweithredu a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Cwblhawyd
	• Adroddiad at wraidd y mater ar Apeliadau Bwrsariaeth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Hydref.	**Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**	Hydref 2020	Eitem ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.
PACA: 16/09/2.1	**Manyleb y Contract Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**			
	• Yn amodol ar ddiwygio'r dogfennau i adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor, cytunodd y Pwyllgor i: ○ gymeradwyo'r cynllun a'r strategaeth gaffael, i'w hystyried gan y Bwrdd; ○ argymell cyflwyno'r Gwahoddiad i Dendro a Manyleb y Contract i'r Bwrdd; ○ argymell i'r Bwrdd y dylid cyflwyno'r Adroddiad Caffael i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Caffael NWSSP a Llywodraeth Cymru.	**Cyfarwyddwr Cyllid/ Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro**	Medi 2020	Eitem ar agenda'r Bwrdd ym mis Medi.
PACA 16/09/3.1	**Cylch Gorchwyl yr Is-grwpiau Addysg**			
	• Yn amodol ar ddiwygio'r Cylch Gorchwyl i adlewyrchu trafodaeth y Pwyllgor, cytunwyd y dylai pob un o'r Grwpiau Cynghori newydd adolygu eu Cylch Gorchwyl yn eu cyfarfodydd cyntaf.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Medi 2020	Cylch Gorchwyl wedi'u hystyried yn yr MPEQG ar 23 Medi 2020 ac ar agenda'r Pwyllgor ym mis Hydref.

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Dyddiad y Cyfarfod	**8 Hydref 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**2.1**
Teitl yr Adroddiad	**Diweddariad ar Reoli Ansawdd**		
Awdur yr Adroddiad	Mandy Martin Dr Malcolm Gajraj		
Noddwr yr Adroddiad	Yr Athro Pushpinder Mangat		
Cyflwynwyd gan	Yr Athro Pushpinder Mangat		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am weithgarwch rheoli ansawdd yn y Ddeoniaeth Feddygol.		
Materion Allweddol	Mae’r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cyflwyno statws monitro manylach ar gyfer 6 maes risg ar hyn o bryd. Mae proses ad-drefnu arwyddocaol yn cael ei hystyried ar gyfer un maes, ac mae'r Ddeoniaeth Feddygol yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd yn y cyswllt hwn Mae trefniadau'n cael eu gwneud i ailddechrau gweithgareddau ymweld drwy ddulliau rhithwir.		

Camau penodol i’w cymryd (***rhowch un ✓ yn unig)***	**Gwybodaeth**	**Trafodaeth**	**Sicrwydd**	**Cymeradwyo**
	✓			

Argymhellion	Gofynnir i aelodau: • **Nodi**

Diweddariad ar Reoli Ansawdd

1. Cyflwyniad

Mae'r Uned Ansawdd yn gweithio i wella gofal cleifion a diogelwch cleifion drwy fonitro a datblygu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel a darparu Cyfadran a seilwaith i gefnogi hyn. Ymgymerir â gweithgarwch mewn cydweithrediad ag Ysgolion Arbenigol, Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Ymarfer Meddygol ynghyd â Darparwyr Addysg Lleol (LEP) ledled GIG Cymru er mwyn sicrhau amgylchedd addysgol o ansawdd uchel i hyfforddeion a chysylltiadau rhwng llywodraethu addysgol a chlinigol.

Cefnogir rhagoriaeth mewn hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yng Nghymru gan ein cylch gwaith craidd sy'n darparu llywodraethu addysgol drwy gyfrwng dulliau fel y canlynol:

a) Comisiynu darpariaeth Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion (PGMDE), a disgwyliadau ar ei chyfer.
b) Cymhwyso Fframwaith Rheoli Ansawdd (QMF) gan gynnwys elfennau wedi'u hamserlennu ac elfennau ymatebol i sicrhau bod newidiadau'n cael eu hwyluso a'u gweithredu i wella ansawdd os nad yw hyfforddiant yn bodloni safonau cenedlaethol. Mae'r QMF yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y rheoleiddiwr, bod modd cymeradwyo safleoedd a rhaglenni hyfforddi.
c) Cymorth ar gyfer darpariaeth PGMDE ledled GIG Cymru gan gynnwys hyfforddwyr a seilwaith hyfforddi.

O reidrwydd, mae'r dulliau hyn wedi'u cydgysylltu. Fodd bynnag, at ddibenion adrodd, mae pob elfen yn cael ei hystyried ar wahân a'i chroesgyfeirio fel y bo'n briodol er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer gwybodaeth. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â darparu diweddariad ar reoli ansawdd.

2. Materion Llywodraethu a Risg

Ar hyn o bryd, mae chwe maes o fewn y Ddeoniaeth Feddygol yn destun statws monitro manylach gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys diweddariad ar bob un o'r meysydd hyn a gwybodaeth berthnasol arall.

2.1 Llawdriniaeth Bediatrig, Ysbyty Athrofaol Cymru

Cyflwynwyd mesurau Monitro Manylach ar gyfer y maes hwn ym mis Ebrill 2017 ar ôl i hyfforddeion gael eu hatal dros dro yn 2015. Ers hynny, mae AaGIC wedi bod yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i wella'r amgylchedd hyfforddi gyda'r bwriad o asesu addasrwydd ailgyflwyno hyfforddeion. Cymeradwywyd y broses o ailddyrannu hyfforddeion ym mis Mehefin 2019, ac ers hynny mae un hyfforddai hyfforddiant arbenigol wedi cychwyn ei hyfforddiant ym mis Awst 2019, ac mae hyfforddai arall wedi dechrau yn ei swydd ym mis Chwefror 2020.

Cyn COVID-19, roedd y dystiolaeth wrthrychol yn dangos cynnydd da wrth leddfu'r pryderon, ac roedd y broses o ailgyflwyno hyfforddeion wedi bod yn llwyddiannus i raddau helaeth yn dilyn lefel dda o oruchwyliaeth gan y Bwrdd Iechyd. Gohiriwyd yr ymweliad blaenorol a drefnwyd ar gyfer 21 Ebrill 2020

oherwydd pandemig COVID-19. Felly, mae AaGIC wedi gwneud trefniadau i gynnal Ymweliad wedi'i Dargedu er mwyn sicrhau adolygiad manwl o sut mae COVID-19 wedi effeithio ar yr adran, cyn cynnal adolygiad ehangach mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Cynghori Arbenigol a'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Er mwyn isgyfeirio o statws monitro manylach, mae angen y canlynol:

- Tystiolaeth o rota gynaliadwy a fyddai'n gallu cynnal hyfforddiant, (Gofyniad R1.12 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Llwyth achos sy'n galluogi hyfforddeion i fodloni gofynion y cwricwla, (Gofyniad R1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Tystiolaeth o gyfarfodydd amlddisgyblaethol, (Gofyniad R1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol)
- Goruchwyliaeth addysgol briodol, (Gofyniad A1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Clinigau cyn derbyn, (Gofyniad A1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Amgylchedd sy'n hwyluso profiad dysgu cadarnhaol, (Gofyniad A3.3 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Rhaglen addysgu sy'n cydymffurfio â Chonsortiwm y BBC, (Gofyniad A1.16 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

Y camau nesaf:
Bydd y trefniadau monitro yn parhau ac mae Targed ffurfiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2020.

2.2 Obstetreg a Gynaecoleg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg

Cyflwynwyd mesurau "monitro manylach" yn yr adran hon ym mis Rhagfyr 2017 oherwydd pryderon yn ymwneud â goruchwylio clinigol ac ad-drefnu gwasanaethau. Roedd adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr yn beirniadol o Wasanaethau Obstetrig yr adran yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y problemau hyfforddiant wedi gwella, a gwelwyd tystiolaeth o hyn trwy'r gwaith monitro. Cafwyd ymweliad pwrpasol mwy ffurfiol ar 23 Hydref 2019 ac roedd y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn bresennol. Mae'r Uned Ansawdd wedi parhau i gydweithio â'r Bwrdd Iechyd, a gohiriwyd ymweliad pellach a drefnwyd ar gyfer 29 Ebrill 2020 oherwydd pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae gwaith monitro gyda'r tîm lleol wedi parhau, ac mae'r ymweliad wedi'i ad-drefnu ar gyfer 14 Hydref 2020. Bydd yr ymweliad yn cael ei gynnal ar ffurf rithwir a bydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn bresennol. Yn ogystal, mae aelod o'r Panel Adolygu Annibynnol wedi cael gwahoddiad i fynychu, ond rydym yn parhau i aros am gadarnhad a yw ar gael.

Mae angen y canlynol er mwyn sicrhau isgyfeirio o statws monitro manylach:

- Tystiolaeth bod gwelliannau sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn yn gynaliadwy (Safonau S1.1 ac S1.2 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

- Datrys y pryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion mewn llwybrau Damweiniau ac Achosion Brys (Safon 1.1 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Mynediad at hyfforddiant uwchsain, (Gofyniad R1.20 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

Y camau nesaf:
Cynhelir ymweliad ar 14 Hydref er mwyn llywio'r camau nesaf.

2.3 Obstetreg a Gynaecoleg yn Ysbyty Tywysoges Cymru

Cyflwynwyd mesurau "monitro manylach" yn yr adran hon ym mis Ionawr 2019 oherwydd pryderon yn ymwneud â goruchwylio clinigol, profiad digonol, cwmpas y cwricwlwm ac ad-drefnu gwasanaethau. Cynhaliwyd ymweliad arall ar 23 Hydref yng nghwmni'r Cyngor Meddygol Cyffredinol er mwyn monitro cynnydd yn fwy ffurfiol. Yn ystod yr ymweliad, roedd yn amlwg bod y problemau'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn yr ymweliad blaenorol wedi'u datrys a bod profiad yr hyfforddeion sylfaen ac ymarfer meddygol wedi gwella. Rydym wedi parhau i gydweithio â'r tîm lleol i fonitro cynnydd, ac mae ymweliad wedi'i drefnu ar gyfer 30 Tachwedd 2020.

Mae angen y camau canlynol er mwyn sicrhau isgyfeirio o statws monitro manylach:

- Tystiolaeth bod y gwelliannau blaenorol wedi'u cynnal (Safonau S1.1 ac S1.2 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Tystiolaeth bod hyfforddeion hyfforddiant arbenigol yn gallu bodloni gofynion y cwricwlwm (Gofyniad R1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Tystiolaeth bod gan hyfforddwyr amser priodol ar gyfer hyfforddiant yn eu cynlluniau swydd (Gofyniad R4.2 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Mwy o eglurder ynglŷn â phresenoldeb ymgynghorwyr ar y ward esgor (Safon R1.7 y Cyngor Meddygol Cyffredinol)

Y camau nesaf
Trefnwyd ymweliad i adolygu cynnydd ar gyfer 30 Tachwedd 2020 er mwyn hwyluso asesiad mwy ffurfiol yn ymwneud â chynnydd.

2.4 Meddygaeth, Ysbyty Maelor Wrecsam

Cynhaliwyd ymweliad ar 19 Gorffennaf 2019, y trydydd mewn cyfres o ymweliadau. Yn ystod yr ymweliad hwn, nodwyd bod pryderon parhaus yn ymwneud â gallu'r hyfforddeion i fodloni gofynion y cwricwlwm oherwydd cydbwysedd amhriodol rhwng hyfforddiant a darparu gwasanaethau. Oherwydd natur barhaus y pryder hwn, hysbyswyd y Cyngor Meddygol Cyffredinol am y mater er mwyn ystyried cyflwyno statws monitro manylach. Cyflwynwyd statws monitro manylach ym mis Medi 2019.

Cyn COVID-19 roeddem yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'r pryderon, a bod rhywfaint o dystiolaeth bod isgyfeirio yn bosibl cyn y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar feddygaeth fel arbenigedd a bod

COVID wedi cyrraedd y Gogledd ychydig yn hwyrach nag yng ngweddill Cymru. Felly, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â'r mater hwn gyda'r bwriad o nodi amser priodol i drefnu adolygiad ffurfiol drwy ymweliad.
Mae angen y camau gweithredu canlynol er mwyn sicrhau isgyfeirio o statws monitro manylach:

- Tystiolaeth o gydbwysedd priodol rhwng hyfforddiant a darparu gwasanaethau a bod modd cynnal hyn (Gofynion R1.12, R1.7, R1.12 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

Y camau nesaf
Bydd yr Uned Ansawdd yn parhau i gydweithio â'r tîm lleol i fonitro cynnydd, a bydd yn trefnu ymweliad ar adeg briodol.

2.5 Meddygaeth Frys, Ysbyty Treforys

Cynhaliwyd ymweliad er mwyn ystyried y profiad hyfforddiant ym maes Meddygaeth Frys yn Ysbyty Treforys ar 9 Ionawr 2020. Yn ystod yr ymweliad, roedd y panel yn pryderu bod y profiad hyfforddi wedi dirywio'n sylweddol. O ystyried y pryder bod cynnydd wedi arafu, ynghyd â diffyg cynllun clir ar gyfer sut i fynd i'r afael â'r pryderon yn y tymor byr, cyfeiriwyd y mater at y Cyngor Meddygol Cyffredinol er mwyn cyflwyno statws Monitro Manylach, a derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol ym mis Chwefror 2020 y byddai'r statws hwn yn cael ei roi ar waith.

Cyn COVID, roedd y Bwrdd Iechyd wedi nodi bod cynnydd wedi'i wneud ym maes recriwtio. Yn ystod y pandemig, mae pwysau ar adrannau achosion brys wedi lleihau, a bydd angen i ni ystyried hyn wrth gynnal adolygiad ffurfiol o gynnydd drwy ymweliad rhithwir, sydd wedi'i drefnu ar gyfer 4 Tachwedd 2020.

Dyma'r materion allweddol y mae angen gweithredu yn eu cylch:

- Tystiolaeth bod rotâu wedi'u cynllunio i leihau effeithiau andwyol blinder a llwyth gwaith (Gofynion R1.12 e y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Tystiolaeth bod digon o staff â chymwysterau addas ar gael i sicrhau bod gan hyfforddeion oruchwyliaeth glinigol a phatrymau gwaith priodol, yn enwedig ym maes pediatrig (Gofyniad R1.7 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Sicrhau bod goruchwyliaeth addysgol ac amser digonol yn cael eu darparu i gwblhau'r asesiadau yn unol â gofynion y cwricwlwm, (Gofyniad R1.19 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).
- Diwylliant sy'n ceisio ac yn ymateb i adborth gan ddysgwyr ac addysgwyr ar gydymffurfio â safonau diogelwch a gofal cleifion yn ogystal ag addysg a hyfforddiant (Gofyniad R1.5 y Cyngor Meddygol Cyffredinol).

Y camau nesaf:
Mae ymweliad arall wedi'i drefnu ar gyfer 4 Tachwedd 2020 er mwyn monitro cynnydd yn fwy ffurfiol.

2.6 Trawma ac Orthopedeg, Ysbyty Treforys

Cyflwynwyd mesurau monitro manylach yn yr adran hon ym mis Ionawr 2019 oherwydd pryderon am oruchwyliaeth glinigol, amgylchedd cefnogol, profiad digonol, ymsefydlu a llwyth gwaith. Mae lefel dda o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â nifer o'r pryderon yn yr adran yn union cyn COVID-19, yn enwedig mewn perthynas â materion diogelwch cleifion a nodwyd yn flaenorol. Mae'r pryder sy'n weddill yn ymwneud â'r angen i sicrhau digon o gysylltiad â thriniaethau dewisol (Gofynion R4.2 ac R1.17 y Cyngor Meddygol Cyffredinol). Fodd bynnag, fel sy'n wir am bob arbenigedd llawfeddygol, mae COVID-19 wedi cael effaith fawr ar allu'r adran i ddarparu llawdriniaethau heb fod yn frys. Felly, rydym yn cymryd camau i sicrhau bod hyfforddeion yn parhau i dderbyn cymorth trwy'r pandemig wrth i lawdriniaethau cyffredinol ailddechrau. Mae'r Ddeoniaeth Feddygol wedi cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Meddygol i ganiatáu i hyfforddeion ennill profiad y tu allan i brif safleoedd ysbytai'r GIG (e.e. Ysbytai Preifat). Gohiriwyd cynlluniau ar gyfer ymweliad arall yn ystod y gwanwyn oherwydd y pandemig COVID. Er bod cynlluniau ar y gweill i gynnal ymweliad arall, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r amser mwyaf priodol i'w gynnal.

Y camau nesaf:
Monitro parhaus mewn cydweithrediad â'r Bwrdd Iechyd, gan drefnu ymweliad arall ar adeg briodol.

2.7 Ysbyty Athrofaol y Faenor

Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn agor Ysbyty Athrofaol y Faenor ym mis Tachwedd 2020. Nid oes gan y datblygiad hwn statws "monitro manylach," ond fel sy'n wir am unrhyw broses ad-drefnu sylweddol, mae angen i AaGIC ei hystyried yn ofalus. Mae'r Gyfarwyddiaeth Feddygol wedi cael nifer o drafodaethau cydweithredol gyda'r Bwrdd Iechyd ynglŷn ag integreiddio addysg a hyfforddiant wrth gynllunio'r safle hwn. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr i fynd i'r afael â materion hyfforddi wrth iddynt godi. Dyma'r prif faterion:

- Sicrhau bod y trefniadau a fydd ar waith yn sicrhau bod pob hyfforddai'n cael cyfnod ymsefydlu priodol.

- Sicrhau bod gan bob hyfforddai lefel briodol o oruchwyliaeth glinigol yn ystod oriau a'r tu allan i oriau. Yn benodol, yr angen i sicrhau bod gan bob hyfforddai sylfaen yn ogystal â hyfforddeion iau eraill fynediad at oruchwyliaeth glinigol ar y safle bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol.

- Cadarnhau trefniadau llywodraethu addysgol gan ystyried effaith rotâu sy'n golygu bod angen gweithio ar safleoedd lluosog.

- Sefydlu cyfleusterau gorffwys ac addysg priodol ar y safle.

Mae'r Uned Ansawdd yn manteisio ar y berthynas waith ragorol gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, a bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol.

3. Adrodd Arbenigol

Rydym yn bwriadu paratoi adroddiadau ar gyfer y prif grwpiau arbenigol.

Fel rhan o'n cyfrifoldeb am sicrhau llywodraethu priodol mewn rhaglenni hyfforddiant meddygol, mae gan yr Uned Ansawdd broses adrodd sydd wedi'i chynllunio i adolygu dulliau gweithredu ar draws rhaglenni hyfforddi a rhannu arferion gorau.

Nodwyd bod y broses hon yn feichus o safbwynt gweinyddol, a'i bod yn cael ei diweddaru a'i symleiddio. Serch hynny, bydd yn parhau i ddarparu gwybodaeth briodol y gellir ei dadansoddi mewn modd cyson - yn enwedig o safbwynt monitro tueddiadau dros amser a rhannu ymarfer.

Mae'r newidiadau hyn i'r broses yn gymharol newydd ac maent wedi'u croesawu gan arweinwyr rhaglenni hyfforddi. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut i ddatblygu'r dull hwn er mwyn codi safonau yn fwy hirdymor.

Yn y cyfamser, mae'r adroddiadau diweddaraf yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd, ac mae adborth ar raglenni hyfforddi yn cael ei gwblhau. Bydd adroddiad ar themâu allweddol ar gael maes o law.

4. Arolygon Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Cynhelir Arolygon Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol bob mis Mawrth fel arfer, ond fe gawsant eu gohirio eleni oherwydd pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cynnal arolwg byrrach o hyfforddeion a hyfforddwyr ledled y DU a oedd yn canolbwyntio ar lesiant a deall profiadau hyfforddeion a hyfforddwyr o weithio yn ystod pandemig. Roedd cyfnod cynnal yr arolwg yn llawer byrrach, a bu'n rhaid ei gwblhau o fewn tair wythnos yn unig, yn hytrach na'r chwech i saith wythnos arferol. Yn ogystal, oherwydd y pwysau ar y gweithlu, nid oedd yr arolwg yn cael ei farchnata fel un gorfodol eleni, ac nid oedd modd targedu unigolion i'w hannog i'w gwblhau. Er bod y dull hwn yn briodol, yn unol â'r disgwyl roedd y cyfraddau ymateb yn llawer is nag mewn blynyddoedd blaenorol. Serch hynny, datblygodd yr Uned Ansawdd strategaeth gyfathrebu a oedd yn sicrhau cydbwysedd rhwng annog pobl i gwblhau'r arolwg heb ychwanegu pwysau, ac o ganlyniad roedd ein cyfradd ymateb yn cymharu'n ffafriol â gweddill y DU fel y nodir yn y tabl isod.

	Cyfradd Ymateb AaGIC	Cyfradd Ymateb Gyfartalog y DU	Safle AaGIC
Arolwg Hyfforddeion	53.26%	48.67%	Yr uchaf ond un, (y Ddeoniaeth Amddiffyn oedd ar y brig, ond mae ganddi tua 100 o hyfforddeion, felly nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol).
Arolwg Hyfforddwyr	33.8%	24.3%	1[af]

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi nodi y bydd canlyniadau'r arolwg ar gael ym mis Tachwedd. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd modd cymharu canlyniadau'r arolwg hwn yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol gan fod y cwestiynau a ofynnwyd wedi newid yn gyfan gwbl. Bydd diweddariad arall ar y canlyniadau yn cael ei ddarparu ar ôl i'r Uned Ansawdd gael amser i ddadansoddi'r canfyddiadau.

5. AaGIC Agored

Ddechrau mis Hydref, bydd yr Uned Ansawdd yn lansio AaGIC Agored, cyfrif e-bost cyffredinol y gall hyfforddeion ei ddefnyddio i fynegi pryderon yn uniongyrchol i AaGIC. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i gyflwyno mewn ymateb i ganfyddiadau adborth anecdotaidd yn ogystal â chanlyniadau Arolygon Hyfforddiant Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol, sydd wedi nodi'n gyson mai Cymru sydd â'r sgôr isaf ar gyfer systemau adrodd ledled y DU. Bu gostyngiad graddol yn y sgôr gyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r fenter hon yn seiliedig ar ddisodli systemau adrodd lleol, a'i nod yw gweithredu fel gwerth diogelwch i ategu dulliau lleol a chyfeirio at ffynonellau cymorth lleol. Yn ogystal, un o'r heriau allweddol yn ymwneud â mynd i'r afael â phryderon hyfforddi yw'r ffaith fod rhai pobl yn credu nad oes unrhyw gamau gweithredu yn deillio o bryderon, ac adlewyrchir hyn yng nghanlyniadau'r arolwg. Gall y canfyddiad hwn ddeillio o'r oedi sy'n gysylltiedig â rhoi cynlluniau gweithredu ar waith. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rydym wedi cynnwys mecanwaith yn AaGIC Agored i sicrhau bod y ddolen adborth ar gau. Datblygwyd canllawiau gweithredol ar sut mae pryderon wedi'u codi drwy'r dull hwn, ac mae ymgynghoriad priodol â Darparwyr Addysg Lleol a Chymdeithas Feddygol Prydain wedi'i gynnal, gan amlygu cefnogaeth gyffredinol i'r dull gweithredu hwn. Nid yw hyn yn atal hyfforddai rhag codi materion yn ymwneud â'i hyfforddiant drwy system gwyno AaGIC neu bolisïau codi pryderon.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltiad ag amcanion strategol yr IMTP (✓ os gwelwch yn dda)	**Nod Strategol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni *'Cymru Iachach'*	**Nod Strategol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Strategol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
		✓	
	Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Strategol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Strategol 6:** Cael ei nabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol
	✓		

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Mae cysylltiad agos rhwng cynnal hyfforddiant o ansawdd uchel a diogelwch cleifion. Mae datblygu dulliau amgen o reoli ansawdd yn hanfodol er mwyn cynnal amgylchedd sy'n sicrhau gofal o ansawdd da i gleifion, drwy alluogi hyfforddiant a chymorth priodol i hyfforddeion a'u darparu.
Goblygiadau Ariannol
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth)
Goblygiadau Staffio
Nid oes goblygiadau wedi'u nodi mewn perthynas â staff AaGIC.
Goblygiadau Hirdymor (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

Hanes yr Adroddiad	Dim
Atodiadau	Dim

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Dyddiad y Cyfarfod	**8 Hydref 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**2.2**
Teitl yr Adroddiad	**Adolygiad Comisiynu 2019-20**		
Awdur yr Adroddiad	Mandy Martin		
Noddwr yr Adroddiad	Yr Athro Pushpinder Mangat		
Cyflwynwyd gan	Yr Athro Pushpinder Mangat		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	Rhoi trosolwg i'r Bwrdd o Broses Gomisiynu 2019-2020		
Materion Allweddol	Yr angen i fyfyrio ar Broses Gomisiynu 2019-20 gyda'r bwriad o lywio fformat y dyfodol.		

Camau penodol i'w cymryd (***ticiwch un yn unig***)	**Gwybodaeth**	**Trafodaeth**	**Sicrwydd**	**Cymeradwyo**
	✓			

Argymhellion	Gofynnir i aelodau: • **Nodi**

Adolygiad Comisiynu 2019-20

1. Cyflwyniad

Mae'r Uned Ansawdd yn y Ddeoniaeth Feddygol yn gweithio i wella gofal cleifion a diogelwch cleifion drwy fonitro a datblygu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel a darparu Cyfadran a seilwaith i gefnogi hyn. Ymgymerir â gweithgarwch mewn cydweithrediad ag Ysgolion Arbenigol, Ysgolion Sefydledig ac Ysgolion Ymarfer Meddygol ynghyd â Darparwyr Addysg Lleol (LEP) ledled GIG Cymru er mwyn sicrhau amgylchedd addysgol o ansawdd uchel i hyfforddeion a chysylltiadau rhwng llywodraethu addysgol a chlinigol.

Cefnogir rhagoriaeth mewn hyfforddiant meddygol ôl-raddedig yng Nghymru gan ein cylch gwaith craidd sy'n darparu llywodraethu addysgol drwy gyfrwng dulliau fel y canlynol:

a) Comisiynu darpariaeth Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion (PGMDE), a disgwyliadau ar ei chyfer.
b) Cymhwyso Fframwaith Rheoli Ansawdd (QMF) gan gynnwys elfennau wedi'u hamserlennu ac elfennau ymatebol i sicrhau bod newidiadau'n cael eu hwyluso a'u gweithredu i wella ansawdd os nad yw hyfforddiant yn bodloni safonau cenedlaethol. Mae'r QMF yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC), y rheoleiddiwr, bod modd cymeradwyo safleoedd a rhaglenni hyfforddi.
c) Cymorth ar gyfer darpariaeth PGMDE ledled GIG Cymru gan gynnwys hyfforddwyr a seilwaith hyfforddi.

O reidrwydd, mae'r dulliau hyn wedi'u cydgysylltu. Fodd bynnag, at ddibenion adrodd, mae pob elfen yn cael ei hystyried ar wahân a'i chroesgyfeirio fel y bo'n briodol er mwyn darparu cyd-destun ar gyfer gwybodaeth. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â darparu crynodeb o gylch comisiynu 2019-20 hyd yma. Mae'r broses gomisiynu wedi bod yn destun archwiliad mewnol a gafodd sicrwydd rhesymol (yn amodol ar gadarnhad gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Hydref).

2. Cefndir

Amlinellir prif amcanion y broses Gomisiynu isod:

a) Cynnal adolygiad blynyddol o holl weithgarwch Darparwyr Addysg Lleol (LEP) ledled Cymru gan gyfeirio'n benodol at yr angen am gydymffurfio â safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant meddygol, fel yr amlinellir yn 'Hyrwyddo Rhagoriaeth'. Mae'r safonau hyn yn berthnasol i gontinwwm addysg a hyfforddiant meddygol h.y. addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig.

b) Sefydlu i ba raddau y mae sefydliadau wedi gallu cyflawni yn erbyn gofynion Cytundeb Disgwyliadau AaGIC. Mae'r Cytundeb Disgwyliadau hwn yn darparu prosesau llywodraethu yn ymwneud â'r dyraniadau ariannol ar gyfer darparu addysg feddygol a deintyddol ôl-raddedig yng Nghymru.

c) Darparu cyfle i gydnabod a rhannu arfer da.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad cryno hwn, roedd tri chyfarfod comisiynu wedi'u gohirio oherwydd y pandemig COVID-19, felly ni ellir eu cynnwys yn yr adroddiad cryno hwn. Y cyfarfodydd yw:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sydd wedi'i ad-drefnu ar gyfer 24 Tachwedd 2020.

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a fydd yn cael ei gynnal ar 27 Hydref 2020.

- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roed y cyfarfod hwn i fod i gael ei gynnal ar 22 Medi 2020 ond cafodd ei ganslo ar fyr rybudd oherwydd yr ail don.

3. MATERION LLYWODRAETHU A RISG

3.1. Trefniadau Gweithredol

O safbwynt gweithredol, mae'r broses yn cynnwys dau gam allweddol. Yn gyntaf, mae'r Darparwr Addysg Lleol yn cwblhau'r templed hunan-adrodd. Mae'r templed wedi ei fapio i Safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a'i adolygu gan Uned Ansawdd AaGIC. Yn ail, cynhelir cyfarfod comisiynu i hwyluso trafodaeth strategol am addysg a hyfforddiant.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd ac archwilio'r potensial i gynnwys cylch gwaith ehangach AaGIC mewn prosesau comisiynu, cyflwynwyd y newidiadau canlynol i'r cyfarfod comisiynu eleni:

- Cafodd y cyfarfod ymlaen llaw sy'n cael ei gynnal fel arfer yn union cyn y cyfarfod comisiynu ei ddileu er mwyn datblygu'r ymdeimlad o dryloywder rhwng AaGIC a'r Darparwr Addysg Lleol.

- Cadeiriwyd y cyfarfod gan Brif Swyddog Gweithredol AaGIC eleni, gan sicrhau cydraddoldeb â chynrychiolwyr y Darparwr Addysg Lleol.

- Cyfnewidiwyd gwybodaeth berthnasol cyn y cyfarfod er mwyn ceisio symleiddio'r agenda, gan gynnwys ymatebion i gwestiynau penodol a godwyd gan ddarparwyr a diweddariadau cenedlaethol perthnasol.

- Estynnwyd fformat y cyfarfod i ymgorffori cylch gwaith ehangach AaGIC ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ail ran y cyfarfod. Gwnaed hyn fel cynllun peilot eleni gyda'r bwriad o ystyried y potensial i ymestyn prosesau comisiynu yn y dyfodol. Amlinellir agenda'r cyfarfod isod:

  Rhan A: Y Cyfarfod Comisiynu
  - Trosolwg o'r cytundeb comisiynu rhwng AaGIC a'r Darparwr Addysg Lleol
  - Dyraniadau gradd hyfforddiant ar gyfer Darparwyr Addysg Lleol yn y dyfodol
  - Cydymffurfiaeth â Safonau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
  - Safbwynt israddedig
  - Atebolrwydd ariannol

Rhan B: Yr Amgylchedd Dysgu Amlbroffesiynol

- Diweddariad amlbroffesiynol AaGIC
- Materion addysg a hyfforddiant lleol

3.2. Ymgysylltu

Gall cyfraniad AaGIC at y gwaith o gomisiynu Darparwyr Addysg Lleol fod yn heriol, gan fod angen cael sicrwydd ynglŷn â llywodraethu, seilwaith ac amgylcheddau dysgu. Mae angen herio lle bo hynny'n briodol yn ogystal â chyfleu awydd i weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Addysg Lleol. Fodd bynnag, er bod angen sicrwydd ar gyfer rhai meysydd, cafwyd lefel gadarnhaol o ymgysylltu gan yr holl gynrychiolwyr. Roedd lefel briodol o gynrychiolaeth gan staff gweithredol a'r proffesiynau perthnasol yn amlwg, gan hyrwyddo trafodaeth briodol. Roedd Darparwyr Addysg Lleol yn croesawu'r ffaith bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol o bob math wedi'u cynnwys. Fodd bynnag, gan fod yr agenda ar gyfer cylch gwaith ehangach AaGIC yn gynllun peilot eleni, byddai'n amserol ystyried natur gofyniad y gweithlu gofal iechyd ehangach o safbwynt y broses gomisiynu a'r hyn y gellid ei gyflawni'n fwy priodol drwy brosesau eraill. Mae trafodaethau o'r fath ar gyfer addysg feddygol wedi dechrau gyda'r bwriad o ddatblygu argymhellion ar gyfer y dyfodol er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau bod gwaith comisiynu’n parhau i fod yn addas i'r diben.

3.3. Themâu Allweddol Cymru Gyfan

Mae adroddiadau'r cyfarfodydd comisiynu unigol sydd wedi'u cynnal hyd yma wedi amlygu nifer o themâu Cymru gyfan, fel yr amlinellir yn y paragraffau isod:

- **Datblygu'r Gweithlu**

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd comisiynu yn cynnwys adran benodol ar gyfer trafodaeth am gylch gwaith ehangach AaGIC yn ymwneud ag addysg y gweithlu gofal iechyd yn ei gyfanrwydd, a groesawyd gan bob Darparwr Addysg Leol. O ystyried yr heriau o ran recriwtio o fewn y gweithlu meddygol yn benodol, roedd hyn yn gyfle i amlygu'r angen i ymgorffori'r gweithlu ehangach o fewn Cynllun Tymor Canolig Integredig Darparwyr Addysg Lleol, ac i ystyried AaGIC yn rhan o'r ateb i heriau'r gweithlu.

Yn y gorffennol, gallai'r broses o gefnogi ystod ehangach o ddysgwyr fod wedi arwain at bryderon am leihau cyfleoedd dysgu ar gyfer hyfforddeion meddygol, ond roedd rhywfaint o dystiolaeth y gellid osgoi heriau o'r fath os ydynt yn cael eu rheoli'n briodol. Er enghraifft, dangosodd trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fod y gwrthwyneb yn wir os oes strategaeth glir ar waith ar gyfer rheoli cyfleoedd dysgu ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Hefyd, nodwyd bod yr angen i sicrhau cyfleoedd datblygu clir a chydnabyddiaeth i bawb yn hanfodol er mwyn sicrhau diwylliant cadarnhaol a chynaliadwyedd.

- **Newid y Cwricwlwm**

Roedd y cyfarfod comisiynu yn gyfle defnyddiol i ymestyn trafodaethau blaenorol gyda Darparwyr Addysg Lleol am newidiadau i'r cwricwlwm. Yn benodol, cynhaliwyd trafodaeth bellach am gyflwyno'r Cwricwlwm Hyfforddiant Meddygol

Mewnol ym mis Awst 2019 gyda phob un o'r Darparwyr Addysg Lleol. Roedd y drafodaeth hon yn bwysig iawn o ystyried y potensial ar gyfer bylchau rota sy'n gysylltiedig ag anawsterau wrth ragweld cyfraddau gadael, a nifer yr hyfforddeion a fyddai'n cwblhau'r rhaglen dwy neu dair blynedd gan ddibynnu ar eu dewis gyrfa. O ganlyniad, roedd angen datblygu cynlluniau ar gyfer y gweithlu sy'n seiliedig ar dybiaethau'n ymwneud â senarios gwahanol er mwyn lliniaru yn erbyn y risg o fylchau. Trafodwyd bod defnyddio graddau nad ydynt yn rhan o'r broses hyfforddiant a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ateb rhannol i'r heriau.

Yn ogystal â thrafodaethau penodol am newidiadau i'r cwricwlwm Hyfforddiant Meddygol Mewnol, nodwyd newidiadau eraill i'r cwricwlwm. Diben y drafodaeth hon oedd atgyfnerthu'r angen i'r Darparwyr Addysg Lleol baratoi'n ddigonol ar gyfer newidiadau yn y dyfodol, e.e. Roedd trafodaethau cyfarfod Felindre wedi canolbwyntio ar Oncoleg Feddygol a Chlinigol.

- **Systemau Adrodd**

Nodwyd systemau adrodd fel thema ledled Cymru drwy Arolwg Hyfforddeion Cenedlaethol y Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'r Uned Ansawdd wedi bod yn datblygu'r mater hwn gyda Darparwyr Addysg Lleol drwy brosesau rheoli ansawdd. O ystyried y pryderon am ganlyniadau arolwg 2019, roedd yn briodol amlygu'r thema hon yn y cyfarfodydd comisiynu. Nodwyd bod sawl Bwrdd Iechyd yn cymryd camau gweithredol i wella dulliau o fynegi pryderon, a bod y pwyntiau canlynol yn berthnasol iawn:

- Roedd Darparwyr Addysg Lleol yn archwilio dewisiadau i gau'r ddolen adborth pan fydd pryderon yn cael eu crybwyll. Gall hynny fod yn heriol o ystyried natur dros dro poblogaeth meddygon gradd hyfforddi.

- Nodwyd un cam pwysig, sef yr angen i wella dealltwriaeth meddygon gradd hyfforddi o'r broses rheoli pryderon a rheoli disgwyliadau'n ymwneud ag amserlenni sy'n gysylltiedig â datrys pryderon.

- Nodwyd yr angen i sicrhau dysgu ehangach ledled cyfarwyddiaethau a phroffesiynau iechyd. Nodwyd cyfraniad posibl hyfforddiant efelychu at gyflawni'r nod hwn, o safbwynt sicrhau gwelliant a datblygu diwylliant dysgu yn hytrach na rhoi bai ar bobl.

- Nododd un Darparwr Addysg Lleol ei fod yn ceisio gwella Datix fel bod angen i adrannau ddangos tystiolaeth o ddysgu. Fodd bynnag, er bod y dull hwn yn cael ei ystyried yn ddull cadarnhaol, mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod Datix yn cael ei hystyried yn system feichus a allai fod yn rhwystr i fynegi pryderon.

- Yn aml, roedd yn well gan feddygon gradd hyfforddi grybwyll pryderon drwy'r tîm addysg feddygol neu strwythurau pwyllgorau'r adran. Yn y cyswllt hwn, roedd rhywfaint o dystiolaeth o fodolaeth fforymau neu strwythurau pwyllgorau lleol i sicrhau bod modd mynegi pryderon mewn ffordd gefnogol. Roedd y strwythurau hyn yn cynnwys meddygon gradd hyfforddi yn uniongyrchol yn y broses o nodi atebion. Er nad oedd y dull hwn yn cael ei

gymeradwyo ar gyfer pryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion, gallai fod yn ddefnyddiol wrth reoli rotâu, addysgu a rhai o'r materion gweithredol yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, cafwyd lefel gymysg o lwyddiant gyda dulliau o'r fath.

- **Hyfforddiant Efelychu**

Mewn nifer o gyfarfodydd, pwysleisiwyd pwysigrwydd dull amlbroffesiynol o ddarparu hyfforddiant efelychu. Yn benodol, ystyriwyd bod hyfforddiant efelychu'n ddull effeithiol o feithrin diwylliant o ddysgu o ddigwyddiadau, a thrwy hynny leihau'r potensial ar gyfer diwylliant sy'n rhoi bai ar bobl. Nodwyd bod dulliau gweithredu ar draws adrannau, ac ar draws cyfarwyddiaethau mewn rhai meysydd, yn ddefnyddiol ar gyfer manteisio'n llawn ar gyfleoedd dysgu. Roedd llawer o Fyrddau Iechyd wedi cymryd camau i wella argaeledd cyfleusterau efelychu er mwyn cynorthwyo dysgu sefydliadol. Fodd bynnag, nodwyd bod angen cynyddu capasiti ledled Cymru er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a gwella hygyrchedd. Nodwyd bod gosod cyfleusterau efelychu yng nghanol lleoliadau clinigol yn fanteisiol iawn er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau, gan nad oes angen colli cymaint o amser wrth ymateb i bwysau gwasanaeth. Cadarnhaodd AaGIC ei fod yn datblygu cynllun efelychu er mwyn cyflwyno seilwaith Cymru gyfan. Nodwyd yr angen am strategaeth efelychu Cymru gyfan a phwysigrwydd cynnwys cynllun cyfathrebu effeithiol, a chadarnhawyd bod hwn yn faes blaenoriaeth ar gyfer AaGIC.

- **Llesiant**

Mae'r angen i feithrin dull mwy strategol o ymdrin â llesiant y gweithlu wedi bod yn thema sy'n dod i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Atgyfnerthwyd hyn trwy ddatblygu'r Siarter Blinder a Chyfleusterau a gwaith y Cyngor Meddygol Cyffredinol ar orweithio drwy'r Arolygon Hyfforddiant Cenedlaethol. Mae'n amlwg bod mynd i'r afael â heriau recriwtio yn elfen bwysig o sicrhau llesiant staff. Fodd bynnag, yn ogystal â hyn, nododd rhai Byrddau Iechyd eu bod yn mabwysiadu dull mwy strategol. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan sydd wedi cymryd camau i flaenoriaethu llesiant yn eu Cynllun Tymor Canolig Integredig. Nodwyd bod y Bwrdd Iechyd yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am sefydlu canolfan ragoriaeth ar gyfer llesiant yn Ysbyty Athrofaol y Faenor. Diben y ganolfan hon fyddai gwneud gwaith ymchwil a datblygu arferion gorau i wella llesiant staff ledled GIG Cymru yn ogystal â darparu cyfleusterau gorffwys ar gyfer staff. Roedd y drafodaeth hon yn gyfle i AaGIC hwyluso'r gwaith hwn ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Hefyd, roedd yn dda gan AaGIC gynorthwyo Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i fwrw ymlaen â gwaith i wella llesiant staff drwy hwyluso gweithdai ymwybyddiaeth ofalgar a gwneud gwaith ym maes arweinyddiaeth dosturiol yn seiliedig ar waith Michael West.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi nodi pwysigrwydd cyfleusterau gorffwys priodol, ac fe geisiodd gasglu rhywfaint o adborth cychwynnol ar ddarpariaeth fel rhan o Arolwg Hyfforddiant Cenedlaethol 2019. Yn ogystal, mae'r angen i sicrhau cyfleusterau gorffwys priodol wedi'i nodi'n ddiweddar drwy Siarter Blinder a Chyfleusterau GIG Cymru. Nodwyd effaith bosibl diffyg cyfleusterau priodol ar lesiant hyfforddeion a recriwtio a chadw staff. Er nad yw'r Uned Ansawdd wedi

cynnal adolygiad cynhwysfawr o gyfleusterau gorffwys, mae rhai Ymweliadau wedi'u Targedu wedi amlygu diffyg cyfleusterau gorffwys priodol mewn adrannau penodol. Er y gallai fod yn anodd mynd i'r afael â hyn yn y tymor byr oherwydd diffyg lle, pwysleisiwyd bod angen ymgorffori hyn yn briodol mewn cynlluniau ar gyfer yr ysbytai newydd fel Ysbyty Athrofaol nesaf Cymru. Yn ogystal, mae ymweliadau blaenorol wedi amlygu heriau gyda diffyg cyfleusterau llety priodol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhai camau i wella'r sefyllfa, mae ansawdd y llety yn cael ei ystyried yn annerbyniol o hyd, a nodwyd effaith bosibl hyn ar recriwtio a chadw staff.

- **Eduroam**

Nodwyd gwaith AaGIC yn sicrhau bod gwasanaeth Eduroam yn cael ei gyflwyno ar gyfer hyfforddeion a hyfforddwyr ledled GIG Cymru. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol iawn sy'n mynd i'r afael â phryderon hanesyddol yn ymwneud â lled band digonol, a bydd yn galluogi unigolion i ddefnyddio cyfrifon y GIG o'u dyfeisiau symudol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus mewn rhai lleoliadau. Nodwyd bod angen i rai Darparwyr Addysg Lleol sicrhau bod seilwaith priodol ar waith a bod rhwystrau diogelwch lleol wedi'u hadolygu. Cynigiodd AaGIC gymorth i ddatrys unrhyw broblemau. Byddai cyflwyno Eduroam yn golygu mai Cymru yw darparwr cyntaf y gwasanaeth ledled safleoedd y GIG.

3.4. Materion Penodol yn ymwneud â Darparwyr Addysg Lleol

Yn ogystal â'r themâu Cymru gyfan a nodwyd yn adran 3.3 uchod, codwyd nifer o bwyntiau penodol yn ymwneud â Darparwyr Addysg Lleol. Amlinellir y pwyntiau hyn isod:

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

  - Mynegodd y Bwrdd Iechyd bryder ynglŷn â'r modelau ariannu hanesyddol yn ymwneud â dyrannu meddygon gradd hyfforddi. Roedd y Bwrdd Iechyd o'r farn, gan fod ganddo fwy o uwch hyfforddeion, ei fod o dan anfantais, ac roedd yn credu y byddai'n decach pe bai'r cyllid yn dilyn yr hyfforddai. Ymrwymodd AaGIC yn y cyfarfod i ddatblygu'r argymhellion sy'n deillio o Adroddiad Scott gyda Llywodraeth Cymru. Er bod y mater hwn wedi'i godi'n benodol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, byddai gan adolygiad o'r fath oblygiadau ar gyfer Darparwyr Addysg Lleol ledled Cymru.

  - Nodwyd bod cysylltiadau effeithiol ar waith rhwng rheoli ansawdd yn lleol ac Uned Ansawdd AaGIC. Er nad oedd unrhyw broblemau o safbwynt monitro manylach adeg y cyfarfod, ailadroddwyd pryderon yn ymwneud â materion diogelwch cleifion sy'n gysylltiedig â'r arwyddion amhriodol yn hysbysebu Ysbyty Ystrad Fawr fel Canolfan Argyfwng Ieol. Mae'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod am y mater hwn sawl gwaith o'r blaen drwy'r fframwaith rheoli ansawdd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid yr arwyddion nes bod Ysbyty Athrofaol y Faenor yn agor.

  - Nodwyd y peryglon o gyflwyno'r Faenor fel safle hyfforddi ychwanegol gan fod cynlluniau ar gyfer y model y tu allan i oriau’n seiliedig ar ddau safle.

O gofio bod y safle ar fin agor, gan effeithio o bosibl ar nifer o arbenigeddau, mae'r Uned Ansawdd wedi dilyn y trafodaethau hyn trwy wneud cais penodol am gadarnhad bod trefniadau ar waith i sicrhau bod trefniadau sefydlu, goruchwyliaeth glinigol a llywodraethu addysgol priodol ar waith. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei fonitro drwy'r fframwaith rheoli ansawdd.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

  - Nodwyd bod cysylltiadau effeithiol ar waith rhwng y Bwrdd Iechyd ac Uned Ansawdd AaGIC mewn perthynas â rheoli pryderon addysg a hyfforddiant meddygol. Er y nodwyd bod monitro manylach ar waith ar gyfer Llawdriniaeth Bediatrig, roedd tystiolaeth bod cynnydd effeithiol wedi'i wneud. Roedd y mesurau hyn yn debygol o gael eu hisgyfeirio yn sgil cyflwyno tystiolaeth o gynaliadwyedd.

  - Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio Ysbyty Athrofaol Cymru 2, a nodwyd bod angen cynnal trafodaethau cynnar i sicrhau bod addysg a hyfforddiant yn cael eu hymgorffori'n briodol yn y camau cynllunio a'r camau cyflwyno yn y pen draw.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf**

  - Nodwyd bod Obstetreg a Gynaecoleg Iedled y Bwrdd Iechyd yn destun monitro manylach, a bod tystiolaeth o gynnydd da yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Fodd bynnag, roedd llai o gynnydd wedi'i wneud yn Ysbyty Tywysoges Cymru, a nodwyd bod y broses o roi'r cynllun gweithredu ar waith mewn cyfnod cynnar o hyd. Yn ogystal, cafodd myfyrwyr Meddygaeth Frys anfeddygol eu symud ym mis Chwefror 2020, ac er y nodwyd bod Cyfarwyddwr Nyrsio'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, nodwyd hefyd fod Meddygaeth Frys ar gyfer hyfforddeion meddygol yn bryder risg uchel oherwydd pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd yr amgylchedd hyfforddi o ystyried bod tri safle yn y Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau recriwtio.

  - Yn dilyn y newid i'r ffin, bydd strategaeth newydd Iedled y sefydliad ar gyfer llywodraethu clinigol ac addysgol yn cael ei gweithredu o fis Ebrill 2020 ymlaen yn seiliedig ar strwythur tri safle gyda sbardunau strategol cyffredinol i helpu i sicrhau cysondeb.

  - Nododd y Bwrdd Iechyd fod angen model ariannu i gefnogi'r seilwaith sydd ei angen i gynnal rolau amlbroffesiynol. Yn ogystal, gofynnodd y Bwrdd Iechyd am adolygiad o'r ffrydiau ariannu presennol ar gyfer cefnogi addysg a hyfforddiant meddygol, sydd wedi aros yn ddigyfnewid dros y blynyddoedd diwethaf. Ymrwymodd AaGIC i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fodelau ariannu er mwyn cefnogi addysg a hyfforddiant ar gyfer pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn y cyfarfod.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

  - Nid oedd unrhyw broblemau o safbwynt monitro manylach, ac roedd pryderon yn ymwneud â hyfforddiant yn cael eu rheoli. Roedd perthynas effeithiol yn bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd ac Uned Ansawdd AaGIC.

  - Nodwyd bod darparu cyfleusterau efelychu yn her i'r Bwrdd Iechyd. Yn ogystal, er bod heriau llety wedi'u nodi ar gyfer addysg israddedig, roedd tystiolaeth flaenorol drwy fframwaith rheoli ansawdd AaGIC wedi nodi heriau tebyg ar gyfer hyfforddeion meddygol ôl-raddedig.

  - Cynhaliwyd cyfarfod Hywel Dda yn union cyn cyfyngiadau symud COVID-19, ac o ganlyniad dim ond rhan un o'r cyfarfod a gynhaliwyd. Fodd bynnag, roedd yr heriau recriwtio wedi ysgogi trafodaeth am gyfraniad posibl rolau anfeddygol, ac anogwyd y Bwrdd Iechyd i ystyried sut y gellid ymgorffori rolau Cydymaith Meddygol yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

  - Nodwyd bod hyfforddiant Meddygaeth Frys a Thrawma ac Orthopedeg yn Ysbyty Treforys yn cael ei fonitro'n fanylach a bod camau'n cael eu rhoi ar waith mewn perthynas â'r ddau faes.

  - Nodwyd bod cael adborth gan hyfforddeion drwy Bwyllgor Addysg Meddygon Dan Hyfforddiant TDEC yn heriol. Felly, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyflwyno swydd Prif Gofrestrydd yn y gobaith o wella'r cysylltiadau rhwng y garfan dan hyfforddiant a Thîm y Gyfadran, er ei bod yn rhy gynnar nodi effeithiolrwydd y dull gweithredu hwn.

- **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

  - Nodwyd nad yw AaGIC yn monitro unrhyw bryderon yn ymwneud â hyfforddiant ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

  - Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod y galw wedi cynyddu, ac felly roedd y gwaith o ddatblygu'r ysbyty newydd a'r broses o greu cynllun effeithiol ar gyfer y gweithlu i gefnogi hyn yn hanfodol. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag AaGIC er mwyn llunio darpariaeth hyfforddiant i gefnogi hyn.

4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn, dylid nodi bod Darparwyr Addysg Lleol yn mynegi pryderon yn ymwneud â'r pwyntiau isod. Mae AaGIC wedi ymrwymo i gynnal adolygiad o'r modelau ariannu sy'n gysylltiedig â'r meysydd hyn, ac felly mae'n bosibl y bydd goblygiadau ariannol yn codi yn y dyfodol os yw argymhellion yr adolygiadau hyn yn cael eu gweithredu:

- Y model ariannu presennol ar gyfer darparu'r seilwaith i gefnogi addysg a hyfforddiant meddygol.

- Yr angen am fodel ariannu i alluogi'r Bwrdd Iechyd i gefnogi addysg a hyfforddiant amlbroffesiynol.

- Y modelau ariannu hanesyddol sy'n gysylltiedig â dyrannu meddygon gradd hyfforddi.

5. ARGYMHELLIAD

Mae argymhellion penodol ar gyfer pob Darparwr Addysg Lleol wedi'u gwneud mewn adroddiadau comisiynu unigol, ac maent yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer AaGIC a Darparwyr Addysg Lleol. Mewn perthynas â'r broses gomisiynu yn ei chyfanrwydd, mae'r ddau argymhelliad canlynol wedi'u gwneud:

- Bod yr Uned Ansawdd yn dirwyn y cylch comisiynu presennol i ben ac yn adolygu'r diben a'r broses ar gyfer comisiynu meddygol gan gyflwyno cyfres o argymhellion yn wedyn.

- Bod cynrychiolwyr gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ehangach o fewn AaGIC yn ystyried eu gofynion mewn perthynas â dyfodol comisiynu.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltu ag amcanion strategol yr IMTP (✓ os gwelwch yn dda)	**Nod Strategol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni *'Cymru Iachach'*	Nod Strategol 2: Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	Nod Strategol 3: Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
		✓	
	Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	Nod Strategol 5: Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	Nod Strategol 6: Cael ei nabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol
	✓		

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Mae cysylltiad agos rhwng cynnal hyfforddiant o ansawdd uchel a diogelwch cleifion. Mae datblygu dulliau amgen o reoli ansawdd yn hanfodol er mwyn cynnal amgylchedd sy'n sicrhau gofal o ansawdd da i gleifion, drwy alluogi hyfforddiant a chymorth priodol i hyfforddeion a'u darparu.
Goblygiadau Ariannol
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth)
Goblygiadau Staffio
Nid oes goblygiadau wedi'u nodi mewn perthynas â staff AaGIC.
Goblygiadau Hirdymor (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

Hanes yr Adroddiad	Dim
Atodiadau	Dim

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Dyddiad y Cyfarfod	**8 Hydref 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**3.1**
Teitl yr Adroddiad	**Gwerthusiad o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd**		
Awdur yr Adroddiad	Kay Barrow, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol		
Noddwr yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Cyflwynwyd gan	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Rhyddid gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr adroddiad	Cyflwyno i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (ECQC) ganlyniadau ymarfer hunanasesu blynyddol 2019/2020, er mwyn ystyried y camau gweithredu a awgrymwyd ac unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud.		
Materion allweddol	Gwahoddir yr Aelodau i ystyried y gwerthusiad o'r Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor (Atodiad 1).		
Camau penodol i'w cymryd (*rhowch un ✓ yn unig*)	**Gwybodaeth**	**Trafodaeth**	**Sicrwydd**	**Cymeradwyo**
		✓		
Argymhellion	Gofynnir i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd: • **Drafod** canfyddiadau ymarfer hunanasesu 2019/2020 y Pwyllgor. • **Ystyried** unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor.		

GWERTHUSIAD O'R ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ADDYSG, COMISIYNU AC ANSAWDD

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd (ECQC) gwblhau holiadur i ystyried effeithiolrwydd y Pwyllgor, ac i ystyried eu dealltwriaeth, eu rôl a'u cyfraniad unigol mewn perthynas â'r Pwyllgor.

Mae fersiwn 2019/2020 yr holiadur wedi'i datblygu mewn ymateb i'r gofyniad ar y Pwyllgor i fyfyrio a gwella'n barhaus. Mae'n cynnwys cwestiynau ychwanegol i lywio'r gwerthusiad a'r themâu allweddol i'w trafod. Mae'r holiadur hefyd yn gwahodd awgrymiadau ar unrhyw feysydd i'w gwella i gynorthwyo'r Pwyllgor i lunio ei gynllun ei hun ar gyfer datblygu. Gallai awgrymiadau o'r fath gynnwys canolbwyntio ar hyfforddiant a/neu ddatblygiad ar gyfer y dyfodol, neu newidiadau i brosesau a gweithdrefnau'r Pwyllgor ei hun.

Dosbarthwyd yr holiadur hunanasesu i'w gwblhau erbyn 28 Awst 2020. O'r ddau ymateb a wahoddwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, mae'r ddau wedi'u cwblhau a'u dychwelyd.

O'r chwe ymateb a wahoddwyd gan Aelodau Presennol y Pwyllgor, mae tri wedi'u cwblhau.

Mae'r rhestr wirio hunanasesu a gwblhawyd wedi'i hatodi yn Atodiad 1.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg hefyd am sylwadau ar y meysydd allweddol canlynol, ac amlinellir yr ymatebion a gafwyd isod.

1. Llwyddiannau allweddol y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd?

- Sefydlu a chytuno ar TOR, y cytundeb i sefydlu dau grŵp cynghori. Cael adborth gan Reoleiddwyr. ADOLYGIAD o gomisiynau unigol o ran darparu rhaglenni a sicrhau bod hyn yn cael ei adolygu a bod prosesau cyffredin ar gyfer contractio yn cael eu rhoi ar waith. Adolygu'r ddarpariaeth bresennol ac ymgysylltiad asiantaeth allanol i adolygu prosesau contractio a gwneud argymhellion cyn modelau comisiynu newydd.
- Adolygu'r contract a chynghori'r Bwrdd ar yr angen i ymestyn y contract presennol am flwyddyn oherwydd amgylchiadau.
- Cytuno ar y ffigurau Comisiynu yn dilyn yr adolygiad o IMTPs ac argymell i'r Bwrdd yr argymhellion Comisiynu i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Sefydlu ei hun fel is-bwyllgor sy'n rhoi sicrwydd credadwy ac effeithiol
- Gwylio a chraffu ar feysydd busnes allweddol, gan gynnwys yr Adolygiad Strategol, Strategaeth y Gweithlu, y Cynllun HPE Blynyddol
- Adolygu a sicrhau effeithiolrwydd prosesau monitro ansawdd, yn enwedig yn ystod COVID.

2. **Prif ddiffygion y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd?**

- Oherwydd COVID, methu â sefydlu'r ddau is-grŵp yn llawn. Er ein bod wedi cytuno ar aelodaeth a chyfarfodydd, ni alluogwyd y rhain oherwydd cyfyngiadau mynediad a osodwyd gan Ganllawiau'r Llywodraeth oherwydd y cyfyngiadau symud.
- Yn bennaf oherwydd COVID:
    - methu â chael yr is-grwpiau mewnol ac allanol yn weithredol
    - Anhawster o ran cynnal cyfranogiad llawn y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd Zoom/Teams.
- Mynd i'r afael ag ehangder y busnes
- Ychwanegu gwerth
- Presenoldeb
- Her
- Arweinyddiaeth a rhoi cyfeiriad / cyngor
- Cytuno i sefydlu 2 is-grŵp

3. **Beth y gellid ei wella yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, a sut?**

- Mae'n ddyddiau cynnar o hyd, ond rwy'n hapus gyda chyfarfodydd / agenda / cyfraniad pob aelod.
- Parhau i wahodd cyfranogwyr allanol (e.e. Deoniaid) fel arsylwyr
- Hyblygrwydd o ran mynychder a hyd
- Capasiti dwyieithog
- Datblygu dull ymsefydlu
- Defnyddio'r adnoddau a gynrychiolir gan yr is-grwpiau
- Diogelwch o ran cworwm.
- Fel y soniwyd eisoes – byddai aelod annibynnol ychwanegol yn ychwanegu gwerth.

4. **Pa hyfforddiant fyddai'n eich helpu i gyflawni eich rôl yn y Pwyllgor yn fwy effeithiol?**

- Credaf y byddaf yn adolygu hyn unwaith y byddwn wedi gweld sut y byddwn yn penderfynu ar y broses o graffu ar yr agenda ansawdd yn y ddarpariaeth addysg yn y dyfodol.
- Sgiliau Cymraeg.
- Byddai'n ddefnyddiol cael dogfen ymsefydlu yn amlinellu swyddogaethau a pherthnasoedd pwyllgorau ar draws AaGIC

5. **Pa feysydd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol?**

- Proses gontractio newydd. Ansawdd y ddarpariaeth. Profiadau dysgwyr ac effeithiolrwydd data i gomisiynu hyfforddiant y gweithlu yn y dyfodol.
- Sicrhau tegwch a gwahaniaethol (yn ei holl gyd-destunau)
- Sicrhau ansawdd ar draws pob grŵp gweithwyr iechyd proffesiynol
- Anghenion gwybodaeth, tystiolaeth, deallusrwydd ac ymchwil
- Deall effeithiau, deilliannau a gwerth

- Agenda ddigidol yn cynnwys ceisiadau 'meddal' (defnyddio ar gyfer polau piniwn, myfyrdodau) i gefnogi daearyddiaeth Cymru gyfan
- Yn sail i ddatblygu arweinyddiaeth dosturiol
- Llesiant, yng nghyd-destun addysg a hyfforddiant
- Fel y nodir yn yr IMTP a'r ToR – mae'r ToR wedi'u hadolygu ac ystyrir eu bod yn addas i'r diben – er bod adolygiad parhaus (blynyddol) yn arfer da.
- Mae ffocws y Pwyllgor yn briodol, trafodwyd pwyslais ychwanegol ar ansawdd.

2. MATERION LLYWODRAETHU A RISG

Yn unol ag Adran 8.2.1 o Reolau Sefydlog AaGIC, bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, ar ran y Bwrdd, yn goruchwylio proses o hunanasesu a gwerthuso perfformiad a gweithrediad pob Pwyllgor yn rheolaidd ac yn drylwyr gan gynnwys unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir a grwpiau.

Mae cynnal hunanasesiad blynyddol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol. Bydd y Bwrdd yn defnyddio'r wybodaeth o'r gweithgaredd gwerthuso hwn i hysbysu:

- Datblygiad parhaus ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys ei strwythurau a'i brosesau;
- Ei Raglen Datblygu'r Bwrdd, fel rhan o fframwaith Datblygu Sefydliadol cyffredinol; ac
- Adroddiad y Bwrdd ar ei gydymffurfiaeth ag Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd Llywodraeth Cymru.

3. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig ag Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd:

- **Drafod** canfyddiadau ymarfer hunanasesu 2019/2020 y Pwyllgor.
- **Ystyried** unrhyw welliannau pellach y gellid eu gwneud i wella effeithiolrwydd y Pwyllgor.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltu ag amcanion strategol yr IMTP ***(rhowch✓)***	**Nod Strategol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni 'Cymru Iachach'	**Nod Strategol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Strategol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
	✓	✓	✓
	Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Strategol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Strategol 6:** Cael ei nabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol
	✓	✓	✓

Ansawdd, diogelwch a phrofiad y claf
Mae cynnal hunanasesiad blynyddol yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y Pwyllgor yn cyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol.
Goblygiadau ariannol
Ni cheir unrhyw oblygiadau ariannol.
Goblygiadau cyfreithiol (gan gynnwys asesiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth)
Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol.
Goblygiadau staffio
Nid oes unrhyw oblygiadau staffio.
Goblygiadau hirdymor (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
Bydd yr adolygiad o effeithiolrwydd yn cael ei gwblhau'n rheolaidd ac yn cael ei ategu gan raglen dreigl o welliannau ac asesiadau. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd yn asesu a yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Mae'r adolygiad yn rhan annatod o'r adroddiad Llywodraethu sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad blynyddol y sefydliad.

Hanes yr adroddiad	
Atodiadau	Atodiad 1 – Rhestr Wirio Hunanasesu Gyflawn y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd

GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

EDUCATION, COMMISSIONING AND QUALITY COMMITTEE (ECQC)
COMMITTEE EFFECTIVENESS REVIEW

Question		Yes	No	N/A	Comments/Suggestions for Future Arrangements
The Role/ Purpose of the Committee					
1	The role of the Committee is understood and clearly defined in its Terms of Reference.	X			Good progress made in clarifying and understanding role; can build on and consolidate this now.
2	Committee Members understand their individual role and what is expected of them.	X			Agreed but there are only 2 members which, 1. Can give quorate issues 2. Places a lot of pressure on the 2 individuals 3. Additional membership could widen scope and influence of Committee
3	The Committee has clear mechanisms in place to keep it aware of topical, legal and regulatory issues, particularly in relation to external NHS and Welsh Government planning and commissioning requirements.	X			Maybe scope to focus these around the Committee's particular needs, moving forward
4	The Committee is aware of the areas in which it can take decisions under the Scheme of Delegation.	X			
